Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **Ddydd Gwener, 7 Hydref 2022** am 9.00am yn Ystafell B103, Prifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam.

**Presennol**
Jim Barclay
Paul Barlow
Richard Campbell
Yr Athro Martin Chambers
Dr Leigh Griffin (Cadeirydd)
Yr Athro Maria Hinfelaar
Claire Homard
Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Sally Lambah
Diane McCarthy
Judy Owen
David Sprake
David Subacchi
Richard Thomas
Maureen Wain
Liam Wynne

**Swyddogion:**
Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Yr Athro Richard Day *(PVC Research)*
Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)*
Yr Athro Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*

**Ymddiheuriadau:**
Lauren Hole
Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Paul McGrady
Amy Rowley

| | | |
|---|---|---|
| **22.01** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd aelod i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Croesawyd Richard Campbell a Liam Wynne i'w cyfarfod cyntaf a chofnodwyd diolch i Colin Heron, sydd wedi gadael y Brifysgol bellach, am ei gyfraniad i waith y Bwrdd. | |
| **22.02** | **Datgan buddiannau** | |
| | Datganodd Claire Homard fuddiant potensial yn yr adroddiad Campws 2025 ynghylch y trafodaethau am gampws Llaneurgain yn darparu llety i Gyngor Sir y Fflint yn rhinwedd ei swydd gyflogedig gyda'r Cyngor. Nid oedd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud felly roedd yn bresennol ar gyfer y drafodaeth am yr eitem.<br><br>Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau eraill ynghylch unrhyw eitemau ar yr agenda. | |
| **22.03** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2022. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>Bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod. | |
| **22.04** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**21.04.01 Cyfrif banc yn Sri Lanka**<br>Eglurwyd bod y trefniant amgen i agor cyfrif banc yn Sri Lanka wedi bod yn anodd oherwydd y sefyllfa economaidd yn y wlad a bod y broses o agor y cyfrif banc yn parhau ar y gweill.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.05** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Cynghorodd yr Is-Ganghellor y Bwrdd y byddai'r Canghellor yn ymweld â'r cwmpas ar 12 Hydref i gyfarfod myfyrwyr Chwaraeon fel rhan o waith allgymorth y Brifysgol ac y byddai'n agor y Chwarter Arloesi mewn Addysg Iechyd yn ffurfiol.<br><br>Roedd y Brifysgol yn edrych ymlaen at ei Seremoni Raddio lawn gyntaf rhwng yr 2il a'r 4ydd o Dachwedd. Yn dilyn llwyddiant yr Ŵyl Raddio ym mis Mai 2022 byddai seremonïau graddio yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn y gwanwyn gan fod yr Ŵyl Raddio yn cael ei chynnal y tu allan ac angen gwell tywydd. Byddai Seremoni graddedigion 2022/23 yn cael ei chynnal ym mis Mai 2024. Adroddwyd bod yr Undeb Myfyrwyr o blaid y newid hwn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad yr Is-Ganghellor. | |
| **22.06** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr, mis Hydref 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>CYTUNWYD, gan nad oedd y Llywywdd na'r Is-lywydd yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad effaith blynyddol 2021/22, y byddai'n cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Tachwedd, ynghyd ag ymateb yr Is-Ganghellor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr Hydref 2022. | |
| **22.06** | **Teitl y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghori ynghylch newid enw arfaethedig y Brifysgol o Brifysgol Glyndŵr / Glyndŵr University i Brifysgol Wrecsam / Wrexham University.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor yr adroddiad ac atgoffodd y Bwrdd am gefndir a chyd-destun newid arfaethedig teitl y Brifysgol a bod yr ymgynghoriad ar y teitl newydd wedi'i gyflwyno i'r holl randdeiliaid allweddol mewnol ac allanol. Tynnwyd sylw bod cefnogaeth gref i'r teitl newydd arfaethedig gan y rhai wnaeth gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Ysgrifennwyd at yr holl sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a'r rhai a ystyrir yn gystadleuwyr y Brifysgol yng Ngogledd Orllewin Lloegr ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd pryderon y lleiafrif bach a ymatebodd yn gwrthwynebu newid y teitl yn ymwneud â'r ddirnadaeth fod y Brifysgol yn symud oddi wrth ei threftadaeth Gymreig a'i hymrwymiad i'r Gymraeg. Cadarnhawyd fod y Brifysgol yn parhau wedi ymrwymo i'r Gymraeg ac uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a dan arweiniad y Pennaeth Cyfrwng Cymraeg newydd ei benodi mae cynlluniau ar y gweill i ehangu darpariaeth y cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Pennaeth Cyfrwng Cymraeg hefyd yn rhan o Weithgor 2030 gyda'r nod o sicrhau ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu'r Weledigaeth a'r Strategaeth newydd.<br><br>Yn dilyn trafodaeth ynghylch sut y gellid cadw'r cyfeirio at Owain Glyndŵr mewn rhyw fodd, cadarnhawyd y byddai Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn ystyried enwi rhan arwyddocaol o'r campws i adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i'r Gymraeg, yn unol â pholisi'r Brifysgol ar enwi adeiladau a chyfleusterau. Cytunwyd y dylid gwneud y penderfyniadau ar wahân i'r broses gyfredol.<br><br>Mynegwyd rhai pryderon gan yr Undeb Myfyrwyr am y costau ailfrandio i'r Undeb. Tra gellid rhyddhau peth cymorth ariannol, nid oedd unrhyw reswm pam na ellid cadw rhai agweddau o'u brandio cyfredol. Byddai materion eraill sy'n effeithio ar fyfyrwyr, er enghraifft, teitl y Brifysgol ar eu tystysgrif gradd, yn cael eu trin fel rhan o brosesau mewnol ar gyfer myfyrwyr cyfredol a myfyrwyr y dyfodol.<br><br>Cydnabuwyd y byddai costau arwyddocaol yn gysylltiedig ag ailfrandio'r Brifysgol a gwnaed darpariaeth ar gyfer hyn. Roedd y Cyfarwyddwr Marchnata a Derbyniadau yn paratoi'r cynigion caffael ar hyn o bryd i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor eu hystyried. Unwaith y gwneir y penderfyniad ynghylch teitl y Brifysgol yn y dyfodol byddai'r agwedd honno'n cael ei chynnwys yn y cynlluniau ailfrandio.<br><br>Cadarnhawyd y byddai arfbais y Brifysgol yn cael ei chadw. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, byddai'r teitl newydd, ynghyd ag offeryn perthnasol y Cyfrin Gyngor, yn cael ei anfon i Goleg yr Arfau i gofrestru'r teitl newydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO newid teitl y Brifysgol i "Prifysgol Wrecsam/Wrexham University".<br><br>CYTUNO i gyflwyno tystiolaeth a chanlyniad yr ymgynghoriad ynghylch y teitl newydd, ac Offeryn ac Erthyglau's Brifysgol yn dangos y newidiadau, i Brif Weinidog Cymru i'w hystyried.<br><br>Cyflwyno cais i Gyfrin Gyngor Ei Fawrhydi i gymeradwyo newid y teitl o "Glyndŵr University/Prifysgol Glyndŵr" i "Prifysgol Wrecsam/Wrexham University" ar y cyfle cynharaf posibl yn dilyn cyngor gan Brif Weinidog Cymru.<br><br>Cyflwyno, gyda'r cais i Gyfrin Gyngor Ei Fawrhydi, y diwygiadau i'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu i adlewyrchu newid y teitl.<br><br>CYMERADWYO y caiff Cadeirydd y Bwrdd weithredu i ystyried cyngor Prif Weinidog Cymru ac, os yw'n briodol, GYMERADWYO cyflwyno cais y Bwrdd i Gyfrin Gyngor Ei Fawrhydi. | |
| **22.07** | **Alldro a ragfynegir** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Yr alldro a ragfynegir ar gyfer 2021/22.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnodd sylw at yr alldro a ragfynegir a'r rhesymau am yr amrywiadau ers y rhagfynegiad ym mis Mai 2022. Roedd adnoddau a gwariant wedi'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn i | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyflawni'r sefyllfa warged a ragfynegwyd. Yn ychwanegol, roedd y lefelau arian parod ar £18m yn erbyn rhagfynegiad mis Mai o £25m yn dilyn ad-dalu benthyciad AIB.<br><br>Rhagfynegwyd y byddai Glyndŵr Innovations Ltd yn gwneud diffyg o £152k yn unol â rhagfynegiadau yn erbyn diffyg o £80k yn y gyllideb, a rhagfynegwyd y byddai Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn gwneud gwarged o £45k oherwydd gwelliant yn y lefelau incwm. Rhagfynegwyd y byddai Glyndŵr Services Ltd yn gwneud gwared o £30k.<br><br>Gallai'r modd y bydd y Brifysgol yn trin tri maes allweddol ddylanwadu ar y sefyllfa derfynol: cyfrifon Treth ar Werth (TAW) terfynol, rhwymedigaeth treth yn gysylltiedig â Hong Kong Management Association (HKMA) a'r sefyllfa economaidd yn Sri Lanka sy'n parhau i greu anawsterau i Gampws Dinas Londontech i wneud taliadau y tu allan i'r wlad. Gobeithir y bydd y datrysiad a gyflwynwyd yn golygu y byddai taliad Londontech yn cael ei dderbyn yn 2021/22.<br><br>Bu'r aelodau'n ystyried effeithiau niweidiol a ffafriol ar yr alldro a ragfyngir. Yn ystod y drafodaeth tynnwyd sylw at y buddsoddiad dechreuol arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni newydd ym maes nyrsio a phroffesiynau iechyd gyda'r rheolaeth dynn ar lenwi swyddi gwag ar draws y Brifysgol yn canolbwyntio ar swyddi allweddol i sicrhau bod profiad myfyrwyr yn parhau'n gadarnhaol. O ran y lefel arian parod, mae cyfran wedi'i neilltuo ar gyfer cynlluniau cyfalaf, roedd peth wedi'i adneuo ac yn ennill llog. Byddai'r sefyllfa EBITDA yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.<br><br>Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid fod y Pwyllgor yn craffu ar adroddiadau ariannol yn ofalus a chydnabu reolaeth dda y Tîm Gweithredol o ran costau er mwyn cyrraedd y sefyllfa alldro a ragfynegir.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.08** | **Partneriaethau Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Briffio ar Bartneriaethau Academaidd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynwyd y briffio gan PVC Partnerships yn esbonio pam mae prifysgolion yn llunio partneriaethau, y mathau o ddarpariaeth gydeweithredol, portffolio'r Brifysgol a sut mae risgiau'n cael eu rheoli a'u lliniaru. Nodwyd bod yr incwm o bartneriaethau yn cynrychioli 8.3% o'r holl incwm academaidd.<br><br>Nododd yr aelodau ystod o feysydd lle'r oedd darpariaeth partneriaeth wedi mynd o chwith yn y sector addysg uwch ac, er nad oeddynt yn cael eu crybwyll, roedd anawsterau ariannol yn ffactor hefyd. Roedd heriau ariannol cyfredol y Brifysgol gyda phartneriaid yn Sri Lanka yn cael eu gyrru gan y sefyllfa economaidd yn lleol, yn hytrach nag amharodrwydd i dalu anfonebau, ac roedd datrysiadau ar y gweill o ran y mater hwn. Mae'r swyddfa bartneriaethau yn cynnal proses adolygu rheoli risgiau partneriaid yn flynyddol sy'n ystyried y risgiau ariannol a chyfreithiol yn ogystal â risgiau academaidd ac i enw da'r Brifysgol.<br><br>O ran cynnal addysgu rhagorol a sicrhau'r safonau a'r ansawdd uchaf ar draws darpariaeth partneriaethau amlinellwyd y meysydd sy'n gydradd â rhaglenni yma. Roedd y rhain yn cynnwys prosesau cyffredin ar gyfer dilysu rhaglenni, arholwyr allanol, monitro'r rhaglen yn flynyddol a phwysigrwydd y tiwtoriaid cyswllt academaidd ar lefel rhaglen.<br><br>Roedd heriau o ran diwylliant a phellter, ond roedd y prosesau'n cael eu hadolygu ac addasiadau'n cael eu gwneud fel bo angen. Pwysleiswyd nad yw'r Arolwg | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cenedlaethol Myfyrwyr yn holi myfyrwyr mewn sefydliadau partner dramor, felly mae'n bwysig defnyddio'r mecanweithiau eraill a ddefnyddir gan y Brifysgol er mwyn sicrhau adborth gan yr holl fyfyrwyr.<br><br>Mewn ymateb i ymholiadau am gapasiti'r Tîm Partneriaethau i reoli'r twf sylweddol mewn darpariaeth gan bartneriaid, cynghorwyd yr aelodau fod Rheolwr Datblygu a Chyswllt Partneriaethau newydd wedi'i benodi a bod Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn cynnal trafodaeth am strwythur a thwf i sicrhau llunio cydnerthedd yn y tîm.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am newidiadau i brosesau ers mis Gorffennaf, cadarnhawyd na fu unrhyw newidiadau sylweddol. Roedd y prosesau a ddefnyddir ar gyfer y ddarpariaeth yma yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddarpariaeth bartneriaeth hefyd ac roedd hyn yn cynnwys trosolwg o ansawdd a safonau academaidd gan y Pwyllgor Ansawdd Addysgu a Dysgu, a gadeirir gan y Dirprwy Is-Ganghellor. Tra bo adroddiadau gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd wedi bod yn eitem sefydlog yn y Pwyllgor Ansawdd Addysgu a Dysgu, roedd y Pwyllgor wedi cryfhau ei gylch gwaith yn ddiweddar o ran mwy o adroddiadau gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd. Hefyd mae'r Strategaeth Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr 2022/23 yn cynnwys targed penodol ynghylch adolygu mecanweithiau i gasglu adborth gan fyfyrwyr o bob rhaglen a dull cyflwyno cyrsiau, yn cynnwys gan fyfyrwyr ar-lein y Brifysgol a myfyrwyr mewn sefydliadau partner. Mae trosolwg yr ansawdd a'r safonau academaidd yn cael ei rannu rhwng y Swyddfa Partneriaethau a'r Tîm Ansawdd.<br><br>Edrychodd yr aelodau ar sut mae partneriaethau newydd yn cael eu hysgogi, yn cynnwys y ddarpariaeth ar-lein. Esboniwyd nad oedd cyswllt gan gwmnïau yn holi am bartneru efo'r Brifysgol i gyflwyno rhaglenni ar-lein yn cael eu hystyried oherwydd partneriaeth gytundebol wedi'i sefydlu â Higher Ed Partners Ltd (HEP) ar gyfer Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ar-lein oherwydd y gallai partneriaethau ar-lein ychwanegu greu dryswch yn y farchnad. Roedd darpar bartneriaethau eraill yn cael eu datblygu drwy wahanol ffyrdd, yn cynnwys sefydliadau yn cysylltu trwy bartneriaid ac asiantau wedi'u sefydlu yn arferol. Roedd proses diwydrwydd dyladwy gadarn yn bodoli a rhoddwyd enghreifftiau o achosion lle nad oedd cynigion partneriaeth wedi'u datblygu ar sail hyn. Roedd hyn yn cynnwys un a oedd wedi llwyddo yn y diwydrwydd dyladwy ariannol a chyfreithiol ond wedi'i wrthod ar y cam dilysu'r rhaglen oherwydd nad oedd y sefydliad wedi argyhoeddi'r panel dilysu y gallai ddarparu rhaglen y Brifysgol yn effeithiol. Nodwyd bod rhaglenni busnes yn boblogaidd â phartneriaid er mai cymharol fach yw'r ddarpariaeth gartref, a hynny oherwydd gwahanol farchnadoedd a disgwyliadau<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R manylion briffio. | |
| **22.09** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad Campws 2025.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r adroddiad a thynnir sylw at bwyntiau allweddol y drafodaeth isod.<br><br>Cyflwynwyd ailfrandio dros dro arwyddion y campws i adlewyrchu'r newid yn y Campws yn ardal y Chwarter Gogleddol.<br><br>Rhagwelwyd y byddai gwerthu safle Ffordd y Deon/Holt i Bellway Homes yn cael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2022 nawr bod y cais Grîn Tref a Phentref wedi'i ddatrys o blaid y Brifysgol. Tynnwyd sylw fod y Weithred Cyfamod wreiddiol a lofnodwyd gan | |

| | | |
|---|---|---|
| | y Brifysgol, gwerthu'r tir rhydd-ddaliad yn Ffordd y Deon/Holt yn creu taliad gorswm o 15% (tua £700k) o bris y gwerthiant o blaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Gan fod cwblhau'r gwerthu ar fin digwydd roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid wedi ysgrifennu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gofyn i'r gorswm gael ei gadw gan y Brifysgol i gyllido gwelliannau cyffordd Ffordd yr Wyddgrug, a fyddai'n cyd-fynd â chynlluniau'r Cyngor a Phartneriaeth Porth Wrecsam i wella'r fynedfa i Wrecsam.<br><br>Roedd achos busnes llawn y Ganolfan Fenter, Peirianneg ac Opteg yn parhau i gael ei ddatblygu ac ni fyddai'n cael ei ystyried tan Haf 2023 erbyn hyn oherwydd oedi yn cadarnhau'r manylebau a chaffael prosiectau gan Swyddfa Rheoli Rhaglenni Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.<br><br>Roedd dyluniad cam 2a prosiect adnewyddu'r Chwarter Arloesi mewn Addysg Iechyd yn cael ei ddatblygu i fynd trwy'r broses gaffael. Byddai argymhellion dyfarnu contractau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ym mis Chwefror 2023 i baratoi i'r gwaith ddechrau ym mis Mawrth 2023 i'w gwblhau erbyn mis Medi 2023. Mae'r gwaith yn parhau tuag at gyflwyno cais cynllunio ar gyfer yr adeilad newydd cam 2B y rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.<br><br>Cadarnhaodd cyfarfod diweddar â Chyngor Sir Ddinbych i drafod y posibilrwydd o ddefnyddio Neuadd Corbishley ar gampws Llaneurgain i letya ffoaduriaid o Wcrain nad yw'r llety yn bodloni canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru gan nad oes cyfleusterau *en suite.* Roedd cyfleoedd ailddatblygu wedi'u cyllido'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn cael eu harchwilio.<br><br>Roedd dadansoddiad cost a budd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o ran y Prosiect Porth Dysgu. Roedd y Bwrdd Prosiect Seilwaith yn cynnal yr arolygon safle a'r dyluniadau angenrheidiol ar gyfer tirlunio, mynedfeydd ac allanfeydd ac ati h.y. meysydd a oedd yn cyffwrdd ar yr holl brosiectau cyfalaf mawr eraill i hysbysu'r achos busnes seilwaith. Roedd gwaith manwl ar gamau gwaith datblygu'r campws yn cael ei wneud hefyd.<br><br>Eglurwyd bod cynigion enwi adeiladau yn cael eu cyflwyno gan y Bwrdd Prosiect Cyfalaf perthnasol yn unol â pholisi'r Brifysgol ynghylch enwi adeiladau a chyfleusterau. Cynhelir hyn mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Marchnata a Derbyniadau, Cyfreithiwr y Brifysgol ac ystyrir a yw'n cyd-fynd â gwerthoedd y Brifysgol ac unrhyw ystyriaethau ariannol cysylltiedig. Roedd cynigion yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo'n derfynol gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor.<br><br>Cymeradwyodd yr aelod y cyfleusterau wedi'u hadnewyddu yn y Chwarter Arloesi mewn Addysg Iechyd ac roeddynt yn dymuno cofnodi eu llongyfarchiadau am gyflawni'r gwaith mewn cyfnod mor fyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.10** | **Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) 2022** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Ymateb y Brifysgol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o ran canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig.<br>(ii) Dadansoddiad Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor yr adroddiad a'r cefndir i gais CCAUC. Defnyddiwyd y tri chynllun gweithredu fel pecynnau rheoli gweithrediadol, ac roeddynt wedi'u perchnogi gan y timau rhaglen a'r cynnydd o ran eu gweithredu yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | cael ei adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd Addysgu a Dysgu a'r Bwrdd Academaidd. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth gan CCAUC hyd yma. Cyflwynwyd yr ymateb ar y cyd â'r Undeb Myfyrwyr.<br><br>Sylwodd yr aelodau fod y sgôr ar gyfer Adnoddau Dysgu wedi disgyn a nodwyd fod y Brifysgol yn parhau i weithio i oresgyn tanfuddsoddi hanesyddol yn y maes hwn. Gwnaed buddsoddiad arwyddocaol yn y blynyddoedd diwethaf ac roedd cyfathrebu ynghylch yr hyn sy'n cynrychioli adnoddau dysgu yn allweddol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI dadansoddiad Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2022.<br><br>NODI gohebiaeth CCAUC a chynlluniau gweithredu mewn ymateb i'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. | |
| **22.11** | **Ymgysylltu Effeithiol â Rhanddeiliaid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Ymgysylltu Effeithiol â Rhanddeiliaid: canllaw ymarfer dda<br>(ii) Datganiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid diwygiedig drafft<br><br>**Adroddwyd:**<br>Atgoffodd yr Is-Ganghellor y Bwrdd am gefndir a chyd-destun y canllawiau a ddeilliodd fel ymrwymiad i weithredu yn deillio o Adolygiad Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru (Camm). Diwygiwyd y Datganiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid gan ystyried cynghorion o'r Canllawiau. Cynhwyswyd naratif ychwanegol yn adroddiad blynyddol drafft 2021/22 ac roedd Cadeirydd y Bwrdd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd â rhanddeiliaid allanol gyda'r Is-Ganghellor.<br><br>Gwnaed cais i gyfeirio at ymgysylltu'r Brifysgol â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynghrair Merswy Dyfrdwy dan y pennawd Busnes, Diwydiant a Masnach yn y rhestr rhanddeiliaid.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R Datganiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.<br><br>NODI'R cyhoeddiad Ymgysylltu Effeithiol â Rhanddeiliaid: canllawiau arfer dda. | |
| **22.12** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Cadarnhaodd y Cadeirydd ei weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf a oedd yn cynnwys: cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru, mynd i'r Gynhadledd Staff ym mis Medi, cyfarfod â Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a chyfarfodydd ar y gweill â Ken Skates AS ac Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam.<br><br>Byddai'r Cadeirydd yn cyfarfod â llywodraethwyr yn unigol eto yn ystod y tri mis nesaf.<br><br>Roedd yr adborth o gyfarfod diweddar Cadeiryddion Prifysgol Cymru yn cynnwys gweithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r argyfwng costau byw. Roedd y syniadau i roi cymorth i fyfyrwyr yn cynnwys banciau bwyd, cronfeydd caled, mynediad i fannau cynnes fel llyfrgelloedd yn ymestyn eu horiau agor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.13** | **Y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | (i) Adroddiad a chofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Medi 2022.<br>(ii) Adroddiad Bwlch Cyrhaeddiad a Chwblhau 2020/21.<br>(iii) Siarter Myfyrwyr 2022/23.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Darparwyd y cefndir i'r adroddiad Bwlch Cyflawniad a Chwblhau a nodwyd bod adroddiad 2020/21 yn dangos gwelliant o'i gymharu ag adroddiad y flwyddyn flaenorol. Nid oedd canlyniadau'r arolwg ymhlith myfyrwyr lefel 4 ag anableddau ac o gefndiroedd lleiafrif ethnig wedi rhoi casgliadau pendant. Tynnodd y Grŵp Ymgysylltu â Dysgwyr a Mynediad, a gadeirir gan y Dirprwy Is-Ganghellor, sylw at bod nifer o ffactorau cymhleth y tu hwnt i addysgu a chymorth y Brifysgol a oedd yn effeithio ar gyflawniadau academaidd myfyrwyr ag anableddau. Gallai fod yn ddichonadwy cynnal arolwg ymhlith myfyrwyr anabl i ddeall yr heriau mae'r rhai ag anableddau penodol yn eu wynebu os y gellid gwneud hynny heb gyfaddawdu data myfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd**<br>NODI'R adroddiad a chofnodion y Bwrdd Academaidd, yr adroddiad Bwlch Cyflawniad a Chwblhau 2020/21 a Siarter Myfyrwyr 2022/23. | |
| **22.14** | **Adroddiad Risgiau Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb risgiau corfforaethol a'r Map Gwres Risgiau, mis Medi 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Bod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi adolygu'r gofrestr risgiau ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 23 Medi.<br><br>Bu cynnydd yn y sgôr risg Cydymffurfio ac Enw Da yn gysylltiedig â chynnydd eithriadol yn yr achosion camymddwyn academaidd a oedd yn debygol o gael canlyniadau eang. Roedd yr achosion yn ymwneud â grŵp penodol o fyfyrwyr a chynhaliwyd prosesau mewnol i ymchwilio ac ymdrin â'r mater. Roedd gan nifer o'r myfyrwyr dan sylw amgylchiadau lliniarol ac estynnwyd gwahoddiad iddynt ailsefyll y modiwlau wedi'u heffeithio heb unrhyw dâl ychwanegol.<br><br>Roedd y risg recriwtio myfyrwyr wedi lleihau i 16 mewn ymateb i gynnydd yn niferoedd yr israddedigion trwy'r cytundeb Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Cafwyd trafodaeth a oedd y lleihad hwn yn briodol o gofio nad oedd targedau recriwtio 2022/23 wedi'u cyflawni eto. Daethpwyd i'r casgliad bod recriwtio myfyrwyr yn ffactor risg bob amser a'i fod wedi'i reoli dros nifer o flynyddoedd a bod y camau yn eu lle i leddfu hyn wedi lleihau'r effaith ac felly sgôr y risg.<br><br>Codwyd yr angen am risg ar wahân ynghylch cadw myfyrwyr a nodwyd bod cadw myfyrwyr yn cael ei gynnwys yn y risg ansawdd academaidd ac ymgysylltu â myfyrwyr. Byddai'r adborth hwn yn mynd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr i'w ystyried.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **JD** |
| **22.15** | **Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Llywodraethwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Llywodraethwyr 2021/22.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Gofynnwyd am ychwanegu dau faes i gynllun gwaith y Bwrdd ar gyfer 2022/23: ymgysylltu â datblygiadau Prifysgol Glyndŵr Wrecsam 2030 a datblygu a chryfhau perthnasoedd a phartneriaethau â rhanddeiliaid. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>CYTUNO bod yr adroddiad yn grynodeb cywir. | |
| **22.16** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Rheoli** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Rheoli 2021/22.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.17** | **Cofrestr Buddiannau Aelodau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y Gofrestr Buddiannau Aelodau 2022/23.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R Gofrestr. | |
| **22.18** | **Cylchlythyrau a dogfennau a gyhoeddwyd gan CCAUC a chyrff perthnasol eraill** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb o ganlyniadau ymgynghoriad CCAUC ynghylch Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.19** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **22.19.01 Y Pwyllgor Archwilio a Risg** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at ganlyniad yr arolwg effeithiolrwydd blynyddol a dymuniad aelodau i ddeall mwy am rôl y Pwyllgor yng nghyswllt y Brifysgol gyfan. Roedd y berthynas ag archwilwyr mewnol ac allanol yn gadarnhaol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2022.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau y cyfarfod ar 22 Medi wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **22.19.02 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Nododd Cadeirydd y Pwyllgor y rhodd arwyddocaol i'r Brifysgol i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio gradd yn y gyfraith, a groesawyd.<br><br>Tynnwyd Memorandwm Cytundeb drafft rhwng y Brifysgol â Glyndŵr Innovations Ltd yn ôl er mwyn gwneud rhagor o ddiwygiadau a byddai'n cael ei ailystyried gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ym mis Tachwedd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau y cyfarfod ar 30 Medi wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |

Diwedd